Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: RHEOLI RISG

Datganiad Polisi

1. Drwy'r polisi hwn, nod y Gymdeithas yw sicrhau y caiff pob risg sy'n gysylltiedig gyda chyflenwi a darparu gwasanaethau'r Gymdeithas eu gostwng i'r eithaf a, lle bynnag sy'n bosibl, eu dileu. Bydd y Gymdeithas yn cydnabod ei risgiau strategol a gaiff eu monitro gan y Bwrdd drwy'r Pwyllgor Craffu a hefyd risgiau gweithredol a gaiff eu monitro gan y Tîm Rheoli Gweithredol.
2. Bob tro mae'r Gymdeithas yn ystyried cynnal gweithgaredd neu wasanaeth newydd, cynhelir asesiad o'r risg strategol a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd. Ni fydd angen adroddiad pellach lle nad oes risgiau strategol.
3. Lle mae'r Gymdeithas yn cynnal digwyddiad/gweithgaredd mewn lleoliad i ffwrdd o swyddfa'r Gymdiethas, cynhelir asesiad risg gan yr aelod o staff sy'n arwain y digwyddiad.

Diffiniad

4. Mae pob busnes yn gweithredu mewn amgylchedd o risg. Diffinnir risg fel ansicrwydd canlyniad, p'un ai'n gyfle cadarnhaol neu fygythiad negyddol, yn sgil gweithredu a digwyddiadau. Mae'n rhaid asesu risg yng nghyswllt cyfuniad tebygrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd, a'r effaith a gaiff hyn os yw'n digwydd.
5. Bydd y Gymdeithas yn:
   - (i) Bodloni pob cyfrifoldeb a dyletswydd gorfodol a statudol.
   - (ii) Sicrhau iechyd a diogelwch y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.
   - (iii) Hyd eithaf ei gallu, cydymffurfio gyda saith maes amrywiaeth i'r rhai sy'n darparu, a'r rhai sy'n defnyddio, ein gwasanaethau.
   - (iv) Hyrwyddo arferion gwaith diogel sy'n anelu i ostwng a dileu risg.
   - (v) Hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion risg a rheoli hynny drwy raglen gyfathrebu a hyfforddiant.
   - (vi) Sefydlu dull gweithredu systematig a chyson o reoli risg.
   - (vii) Cyflwyno proses rheoli risg sy'n pennu blaenoriaethau wrth ddelio gyda risgiau a ddynodwyd a sicrhau fod y Bwrdd yn derbyn argymhellion gwybodus.
   - (viii) Lle bynnag sy'n bosibl, leihau costau sy'n gysylltiedig gyda risg.

6. Bydd y Gymdeithas yn gweithredu'r polisi hwn yn unol gyda'r egwyddorion a gytunwyd o bryd i'w gilydd o fewn y Strategaeth Rheoli Risg.

Meysydd Perfformiad Allweddol:

1. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol, yn paratoi map risg o risgiau strategol ac yn rhoi adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Craffu.
2. Bydd y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol, yn paratoi map risg o risgiau gweithredol a rhoddir adroddiad chwarterol ar hynny i gyfarfod y Tîm Rheoli Gweithredol a'i gynnwys yn y system adrodd mesurau a gyflwynir yn fisol i'r Bwrdd.

Nod Strategol:	Lleihau risgiau i'r eithaf drwy system addas o fesurau rheoli sy'n rheoli a thrin lefel y risg gweddilliol ar ôl unrhyw gamau gweithredu lliniarol a ellir ei gwneud heb achosi difrod difrifol parhaol i'r Gymdeithas.	
Cyfeirnod:		
Dyddiad Cyhoeddi:	Medi 2009	
Dyddiad Adolygu:	Hydref 2010 Medi 2011	
Adrannau/Unedau yr Effeithir Arnynt:	Cyfan	
Cymeradwywyd gan:	I'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Hydref 2010.	
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol	
Cydymffurfiaeth Statudol:	Gofynion y Gyfarwyddiaeth Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.	
Ffactorau Risg Strategol:	Gweler Map Risg Busnes Sylweddol.	
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	D/B
	A deimlir y gallai'r Polisi hwn gael effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Ni ddisgwylir yr effeithir yn niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion.

	A ofynnwyd i unrhyw grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Amcan y polisi yw sicrhau y caiff risg ei leihau i'r eithaf i sicrhau y cynhelir gwasanaethau ac osgoi'r risg rhag digwydd.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Ni ragwelir y bydd y polisi hwn yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid.
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Ar hyn o bryd, ni ymgynghorwyd â thenantiaid ar y polisi yma.

CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU

STRATEGAETH RHEOLI RISG

Mae gan y Gymdeithas ymrwymiad i gynnal iechyd hirdymor y sefydliad yn nhermau sefydlogrwydd ariannol, rheoli adnoddau ac ansawdd darpariaeth gwasanaeth. Bydd y Gymdeithas yn ceisio lleihau risgiau i'r eithaf drwy system addas o ddulliau rheoli a all drin lefel y risg fel y medrir cario'r risg gweddilliol ar ôl unrhyw gamau gweithredu lliniarol heb achosi difrod parhaol i'r Gymdeithas.

Rheoli risg yw'r broses lle'r ydym yn:

- Dynodi risgiau yng nghyswllt cyflawni ein hamcanion
- Asesu eu tebygrwydd ac effaith cymharol
- Ymateb i'r risgiau a ddynodwyd, gan roi ystyriaeth i'n hasesiad a goddefiant risg.

Adolygu ac adrodd ar risgiau i sicrhau fod y map risg yn gyfoes, er mwyn cael sicrwydd bod ymatebion yn effeithiol, a dynodi lle mae angen gweithredu pellach.

Egwyddorion

- Ni fydd y Gymdeithas yn ymrwymo i unrhyw weithgaredd newydd nes y cwblhawyd dadansoddiad trwyadl ac effeithiol o risg.
- Ni fydd y Gymdeithas yn ymgymryd â gweithgaredd gyda chanlyniad ansicr lle mae'r unig ddiben yw sicrhau budd ariannol.
- Gwrthodir y prosiect lle mae gan weithgaredd neu fenter arfaethedig risg gweddilliol sy'n annerbyniol ac nad oes unrhyw fodd o ostwng y risg i lefel dderbyniol.
- Bydd y Gymdeithas yn cadw fframwaith rheoli effeithiol a gynlluniwyd i gynnwys risgiau lle mae'n gost-effeithiol i wneud hynny ac i reoli rrisg yn effeithiol.
- Bydd yr awdurdod a'r cyfrifoldeb i gymryd penderfyniadau'n ymwneud â risg yn addas i lefel y risg a chânt eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir.
- Caiff bygythiadau allanol sylweddol i'r Gymdeithas eu dynodi a'u monitro a gwneir cynlluniau wrth gefn i ymateb yn effeithiol pe byddai bygythiadau o'r fath yn cael eu gwireddu.
- Lle mae'n effeithiol o ran cost i wneud hynny caiff effaith gwireddu risg ei leihau drwy sicrwydd yswiriant priodol neu indemniaeth arall gan drydydd partïon y mae'r Gymdeithas yn gweithredu â hwy.

- Lle'n bosibl caiff effaith y risgiau sy'n codi ei drosglwyddo i sefydliadau eraill.

- Bydd y Gymdeithas yn ymdrechu i sicrhau athroniaeth ddarbodus "osgoi risg" tra'n gwerthuso lefel derbyniol risg yn gysylltiedig gydag unrhyw brosiect.

- Bydd y Gymdeithas yn ymdrechu bob amser i ddarparu gwasanaeth safon uchel o fewn amgylchedd sy'n newid.

- Bydd dull adolygu fel rhan o ddadansoddiad risg y Gymdeithas lle caiff risgiau eu rhagweld a'u gwerthuso.

Dyddiad cymeradwyo: Medi 2009

Dyddiad adolygu: Hydref 2010
Medi 2011